
Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Gwarchodfa Natur Larnog, Caerdydd

## Mae'r gylchdaith hon trwy Warchodfa Natur Trwyn Larnog yn ffordd berffaith o ddianc rhag pob dim.

*"Mae'r llwybr hwn yn rhyfeddol o safbwynt hanes, yn ogystal â bod yn hardd ac yn dawel. Dyma'r safle lle trosglwyddwyd y neges ddiwifr gyntaf erioed dros fôr agored – o Drwyn Larnog i Ynys Echni. Byddwch hefyd yn mynd heibio i Fagnelfa Larnog, a ddefnyddiwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd i amddiffyn Caerdydd a'r Barri. Yn ystod y daith hon, gallwch ymgolli mewn hanes."*

**TRICIA COTTNAM, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU**

### Dechrau a Diwedd:
Gwarchodfa Natur Trwyn Larnog.

### Pellter:
1 milltir/2km.

### Ar hyd y ffordd...
Mae llwybrau'n cris-croesi'r warchodfa, felly gallwch ddewis eich trywydd eich hun trwy dirwedd o goedydd, dolydd, rhostiroedd a chlogwyni, sy'n gartref i boblogaeth doreithiog ac amrywiol o anifeiliaid a phlanhigion.

Mae mwy na 25 rhywogaeth wahanol o löynnod byw wedi'u cofnodi o fewn y warchodfa, ac mae'r dolydd yn ferw o flodau gwyllt, yn cynnwys briallu Mair, y ganrhi felen a sawl math o degeirian.

Mae'n lle gwych i wylwyr adar hefyd. Cadwch lygad am adar sy'n trigo yma, fel gweilch glas, cochion y berllan a chnocellau gwyrdd, a dewch am dro yma yn yr hydref i weld heidiau mawr o wenoliaid, cochion yr adain a socanod eira sy'n ymfudo.

Tuag ymyl orllewinol y warchodfa ceir Magnelfa Larnog. Adeiladwyd y safle milwrol hwn yn y 1860au, ac roedd yn un o Gaerau Palmerston. Mae'n cynnwys cyfres o amddiffynfeydd a oedd â'r bwriad o amddiffyn mynediad at Fôr Hafren. Cafodd ei ddefnyddio hefyd fel llwyfan gynnau yn ystod yr Ail Ryfel Byd, a bellach mae'n heneb gofrestredig.

Rhywbeth arall y mae'r warchodfa'n enwog amdano yw'r ffaith fod llwyddiant gwyddonol pwysig wedi'i gyflawni ar y safle. Yn 1897, llwyddodd y dyfeisiwr Guglielmo Marconi i drosglwyddo'r darllediad radio cyntaf erioed ar draws môr agored rhwng Trwyn Larnog ac Ynys Echni. Gellir gweld plac yn coffáu'r digwyddiad pwysig hwn ar yr eglwys wrth ymyl y maes parcio.

### Angen gwybod:
Ceir maes parcio yn Nhrwyn Larnog, ynghyd â lluniaeth a thoiledau yn Nhafarn Marconi ym Mhentref Gwyliau Trwyn Larnog. Hefyd, ceir caffi a thoiledau ym Mharc Gwledig Llynnoedd Cosmeston, oddeutu 1.5 cilomedr i ffwrdd.

Gallwch ddefnyddio gwasanaeth bysiau Caerdydd, rhif 94, i gyrraedd y llwybr cerdded hwn – bydd y bws yn stopio ar Fort Road oddeutu 800m o'r warchodfa natur.